



Teitl y Swydd: Swyddog Hwb (wedi'i ariannu rhannol gan Undeb Rygbi Cymru)

Cyflog: BS12-18 (cytundeb URC Tymor Penodol)

Adrodd i: Rheolwr Maes Cwricwlwm ac URC / Grŵp Llywio Hwb Lleol

DISGRIFIAD SWYDD

Pwrpas y Swydd

Rôl y Swyddog Hwb yw hyrwyddo a datblygu Rygbi'r Undeb yn y lleoliad addysgol:

- Mewn ysgol, yn bennaf bydd gofyn i'r Swyddog Hwb hyrwyddo a datblygu rygbi o fewn amser y cwricwlwm, a sefydlu gweithgaredd allgyrsiol sy'n ennyn diddordeb bechgyn a merched o bob gallu mewn rhaglen rygbi cwbl gynhwysol - gan gynnwys datblygu fel hyfforddwyr, dyfarnwyr, gweinyddwyr a gwirfoddolwyr, yn ogystal â chyfranogwyr sydd â chysylltiadau sefydledig â darpariaeth clwb/clwstwr a chymuned
- Mewn coleg addysg bellach, bydd yn ofynnol i'r Swyddog Hwb yrru rhaglenni cyfranogi sy'n recriwtio neu'n cadw cyfranogwyr o fewn y gêm ar ôl 16 oed, tra hefyd yn cyfrannu at ddatblygu rygbi yn ehangach mewn ysgolion bwydo cysylltiedig, gan gynnwys datblygu hyfforddwyr, dyfarnwyr, gweinyddwyr a gwirfoddolwyr, gyda chysylltiadau sefydledig â darpariaeth clwb/clwstwr a chymuned
- Yn y brifysgol, bydd yn ofynnol i'r Swyddog Hwb gynyddu cyfranogiad mewn rygbi yng nghymuned y myfyrwyr, trwy yrru rhaglenni rygbi hamdden a mewnfurol ar gyfer cyfranogwyr gwrywaidd a benywaidd o bob gallu, gan gynnwys datblygu gweithlu cynhwysol yn y sefydliad ac ar draws y gymuned leol

Trwy hyn a gweithgareddau eraill bydd y Swyddog Hwb yn cyfrannu at amcanion y lleoliadau addysgol sy'n ymwneud â chyrhaeddiad academiaidd, ymgysylltu a chyfoethogi myfyrwyr; datblygiad ehangach o Rygbi'r Undeb o fewn y lleoliadau addysgol; ac i iechyd a lles y gymuned y mae'r lleoliad addysgol ynddi.

Cyfrifoldebau Allweddol

Mae cyfrifoldebau allweddol y rôl wedi'u crynhoi fel a ganlyn, gan roi sylw dyledus i gynnwys y Cytundeb Datblygu Rygbi rhwng y lleoliadau addysgol ac URC:

- Cyflawni, neu gefnogi cyflwyno rygbi'r undeb ar gyfer bechgyn a merched
- Llunio, cyflwyno neu hwyluso cyflwyno rhaglenni gweithgaredd rygbi cwbl gynhwysol sy'n ennyn diddordeb myfyrwyr o bob gallu
- Annog a chefnogi bechgyn a merched i drosglwyddo i glybiau cymunedol, clystyrau lleol neu gynigion eraill, fel sy'n briodol

- Cefnogi'r lleoliadau addysgol, clybiau/clystyrau cymunedol lleol ac wrth ddatblygu a chynnal amgylchedd cwbl gynhwysol a phriodol i annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn rygbi, gan gynnwys ac yn arbennig trwy addysg a datblygiad hyfforddwyr, dyfarnwyr a gwirfoddolwyr.
- Cefnogi amcanion y lleoliadau addysgol fel codi safonau cyrhaeddiad academiaidd, ymgysylltu a chyfoethogi myfyrwyr, cydlyniant cymunedol a recriwtio myfyrwyr
- Datblygu pobl ifanc fel arweinwyr a gwirfoddolwyr trwy raglen Arweinwyr Rygbi URC a chyfluoedd perthnasol eraill fel ysgogwyr cyfryngau cymdeithasol
- Cefnogi Grŵp Llywio'r Hwb Lleol i ddatblygu amcanion a thargedau ar gyfer y rhaglen Hwb, fel y bo'n briodol, a gweithio tuag at gyflawni'r rhain
- Casglu a chynnal y data hynny sy'n ofynnol ar gyfer monitro effeithiolrwydd y rhaglen Hwb, ac i riportio hyn i'r URC a'r lleoliad addysgol yn ôl yr angen
- Cefnogi'r URC i gyflawni ei amcanion ar gyfer datblygu rygbi, y tu mewn ond yn enwedig y tu allan i'r tymor, gan gynnwys trwy:
 - Cefnogi rhaglenni datblygu rygbi yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, yn ôl yr angen
 - Cefnogi trefniadaeth a chyflwyniad unrhyw raglen hyfforddi/prentisiaeth URC yn ardal y lleoliadau addysgol
 - Mynychu sesiynau hyfforddi, cyrsiau ac ati URC, yn ôl yr angen, gyda'r bwriad o ddilyn rhaglen bersonol o ddatblygiad proffesiynol parhaus
- Cyfrannu at ddatblygu a chynnal amgylchedd gwaith diogel a chynhwysol ym mhob man gwaith, gan gynnwys trwy gydymffurfio â pholisïau sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch, cydraddoldeb, diogelu, cyfrinachedd, cyfryngau cymdeithasol a diogelu data (yn unol â gofynion URC a'r lleoliad addysgol.)
- Heb gyfyngiad, cyflawni'r holl ddyletswyddau eraill o'r fath, a gwneud yr holl bethau eraill, a fydd yn cael eu hystyried yn angenrheidiol i gyflawni amcanion Rhaglen Hwb URC fel y cytunwyd gyda'r lleoliadau addysgol.

Perthynas Allweddol

Pennaethiaid

Pennaeth AG (neu gyfwerth ag AB)

Rheolwr Rhanbarthol URC

Cydlynnydd Rhanbarthol URC

Rhanbarthau URC/Cynrychiolwyr rhanbarthol

Partneriaeth rygbi clwb/clwstwr/clystyrau/clystyrau lleol yn yr Hwb

Ysgolion uwchradd lleol

Ysgolion cynradd bwydo

Rhanddeiliaid cymunedol, fel y bo'n briodol

Cyfrifoldebau Cyffredinol

- Gweithredu o fewn cyfyngiadau cyllidebol, a sicrhau rheolaeth ariannol a gwerth am arian ym mhob gweithgaredd.
- Cyfrannu at ddiwylliant o welliant parhaus.
- Dangos ymddygiadau sy'n gyson ag arddull reoli agored, gynhwysol a chyfranogol.
- Sicrhau cymhwysedd parhaus yn rôl y swydd yn rhagweithiol trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau datblygiad proffesiynol
- Cydymffurfio â'r holl ofynion hyfforddi gorfodol gan gynnwys traws-Goleg a'r rhai sy'n benodol i rôl y swydd
- Cydymffurfio â'r holl Bolisiau a Gweithdrefnau traws-Goleg a chymryd cyfrifoldeb penodol am ymrwymiad y Coleg i amrywiaeth, cyfle cyfartal ac am gynnal amgylchedd gwaith diogel ac iach.
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesur â swydd, cymwysterau a phrofiad.
- Cadw'n gyfoes â'r holl wybodaeth a datblygiadau arbenigol perthnasol - gan gynnwys deddfwriaeth - ac asesu effeithiau, gan sicrhau eu bod yn cael eu lledaenu neu eu gweithredu'n briodol.
- Cymryd rhan mewn cyfleoedd diwydiannol perthnasol fel y nodwyd gan y rheolwr llinell.
- Gweithio i'r safonau proffesiynol uchaf yn unol â'r Cod Ymddygiad Staff a chydymffurfio'n llawn ag ymrwymiad y Coleg i gydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Mae'n ofynnol i holl weithwyr y Coleg ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion agored i niwed.
- Cadw at Bolisi Diogelu Data a chanllawiau Cyfathrebu Electronig y Coleg gan gynnwys e-bost a'r rhyngwyd.
- Cymryd gofal rhesymol o'ch iechyd a'ch diogelwch eich hun, a diogelwch pobl eraill yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Coleg.
- Cydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg a chyfrannu at hwyluso dewis iaith o fewn darpariaeth gwasanaeth a chwricwlwm y Coleg.

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i hyrwyddo Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF), y Gymraeg, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Sgiliau Hanfodol, Iechyd, Diogelwch, Diogelu, Lles a'r Amgylchedd.

PERSON SPECIFICATION

Meini Prawf Dethols	Hanfodol	Dymunol	Dull Asesu
Cymhwysterau a Hyfforddiant	- Cymhwyster Hyfforddi Rygbi cyfredol ar Lefel 1 o leiaf - Os heb y cymhwyster hwn, cyflawni'r cymhwyster Cymorth Cyntaf yn y Gwaith o fewn amserlen y cytunwyd arni	- Cymhwyster dyfarnwr rygbi (URC Lefel 1) - Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith - Cymhwyster gyrrwr bws mini MiDAS	Ffurflen gais
Gwybodaeth a Phrofiad	- Profiad perthnasol o weithio ym maes datblygu chwaraeon a/neu ddatblygiad cymunedol - Profiad o hyfforddi a/neu weithio gyda phlant a phobl ifanc - Profiad o weithio gyda gwirfoddolwyr - Profiad a dealltwriaeth o ofynion iechyd a diogelwch mewn amgylchedd rygbi neu chwaraeon	- O leiaf 12 mis o brofiad yn gweithio ym maes datblygu rygbi - Profiad fel hyfforddwr neu ddatblygwr gweithlu - Profiad o weithio mewn amgylchedd cynradd neu uwchradd neu addysg bellach	Ffurflen gais/ Cyfweliad
Sgiliau a Galluoedd	- Lefel uchel o gymhelliant, trefnus, llawn brwdfrydedd a a bywiog - Sgiliau rhyngpersonol cryf, gallu meithrin perthnasoedd a dylanwadu - gallu uniaethu'n dda â pherson ifanc ac oedolion - Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol - Sgiliau TG rhagorol, yn benodol Microsoft Office, Google Drive, llwyfannau cyfryngau cymdeithasol cysylltiedig	- Y gallu i gyfarch yn Gymraeg at ddibenion darparu gwasanaeth cwsmer - Y gallu i gyfathrebu trwy gyfrwng ieithoedd eraill fel sy'n briodol i'r gymuned leol	Cyfweliad
Rhinweddau Personol	- Ffordd hawdd mynd atoch, hyblyg a phroffesiynol - Chwaraewr Tîm Cryf - Yn gallu defnyddio menter bob amser		Cyfweliad
Gofynion Arbennig	- Yn addas i weithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed - Y gallu i wneud trefniadau eich hun i deithio i leoliadau penodol oddi ar y safle - Dealltwriaeth ac ymrwymiad i gyfle cyfartal mewn cyflogaeth, chwaraeon ac addysg		Ffurflen gais/ cyfweliad

	• Dealltwriaeth o gyfrifoldeb unigol wrth gydymffurfio â pholisïau a threfniadau URC a lleoliadau addysg mewn perthynas ag lechyd a Diogelwch, cyfrinachedd, diogelu data, ac ati.		
--	--	--	--